# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

14/03/24

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol) yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 21 Mawrth 2024 am 2.15 pm i drafod y materion canlynol:**

**1.** **Ymddiheuriadau**

**2.** **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**3.** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 05 Hydref 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 3 - 4)**

**4.** **Diweddariad Cyffredinol (Tudalennau 5 - 16)**

**5.** **Diweddariad Cyffredinol-cynllun trwyddedu gorfodol 'gweithdrefnau arbennig' a ragwelir y bydd yn cael ei gyflwyno yng Nghymru (Tudalennau 17 - 20)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol)**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU – TACSIS A MATERION ERAILL (ANSTATUDOL)**
**a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 05 Hydref 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), y Cynghorwyr Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan a John Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Gareth Lloyd

**Swyddogion yn bresennol**: Mrs Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol - Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad; Miss Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu; Mr Gareth Rees, Uwch Swyddog Trwyddedu; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:05am-11:20am)

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Wyn Evans a Caryl Roberts am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

2 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

3 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 yn gywir.

**Materion yn codi**

Dim.

4 **Diweddariad Cyffredinol - Tacsis a materion eraill (Anstatudol)**

Ystyriwyd y diweddariad cyffredinol ynghylch tacsis a materion eraill (Anstatudol). Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn hysbysu'r Aelodau o waith yr Adain Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

- Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru)
- Ymgynghoriad – Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru.
- Wythnos Drwyddedu Genedlaethol 2023 - 12-16 Mehefin 2023

Cynllun "Dywedwch Wrthym Unwaith" y Llywodraeth a oedd bellach yn cynnwys trwyddedau a hawlenni.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD:

(i) i nodi'r adroddiad er gwybodaeth; ac

(ii) i groesawu cynllun "Dywedwch Wrthym Unwaith" Wythnos Drwyddedu Genedlaethol 2023 (12-16 Mehefin 2023) a oedd bellach yn cynnwys trwyddedau a hawlenni gan y byddai hyn yn lleihau biwrocratiaeth yn y system.

Hefyd, awgrymodd yr Aelodau y dylai swyddogion y gwasanaeth ystyried cynnal eu harchwiliadau o fusnesau ar y cyd, pe byddai unrhyw fusnes yn y Sir yn gofyn am hynny. Dywedwyd bod hyn wedi'i wneud yng nghyswllt rhai archwiliadau, ac y byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn y dyfodol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

# CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol)

**Dyddiad y cyfarfod:** 21 Mawrth 2024

**Teitl:** Diweddariad Cyffredinol

**Pwrpas yr adroddiad:** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y gwaith a wnaed gan y Tîm Trwyddedu (a Diogelu'r Cyhoedd) ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor.

**Cefndir**

Mae'r adroddiad hwn i ddiweddaru'r Pwyllgor ar waith y Tîm Trwyddedu mewn perthynas â'i swyddogaethau eraill sy'n rhan o'r pwyllgor trwyddedu anstatudol.

**TRWYDDED TACSI A CHERBYD HURIO PREIFAT**

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor (5 Hydref 2023), derbyniwyd 23 o gwynion mewn perthynas â cherbydau a gyrwyr Tacsi a Cherbydau Hurio Preifat. Ymhlith y cwynion a ddaeth i law mae honiadau o orbrisio / camddefnyddio mesurydd tacsi, agwedd wael gyrwyr Tacsi a Cherbydau Hurio Preifat, gweithredwyr tacsis yn cwyno am agwedd wael gyrwyr trwyddedig eraill, gyrwyr nad ydynt yn arddangos yr arwyddion gweithredwr gofynnol, cerbyd didrwydded yn cael ei ddefnyddio fel cerbyd hyrio preifat, hysbysebu camarweiniol. Cafodd y gyrwyr/gweithredwyr sy'n ymwneud â'r cwynion hyn, eu hadnabod ac fe siaradwyd â hwy gan swyddogion. Cyhoeddwyd rhybuddion ffurfiol, lle bo hynny'n briodol.

**PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG**

Bu dau fater ar wahân yr ymdriniwyd â hwy drwy benderfyniad dirprwyedig y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ers y Pwyllgor Trwyddedu diwethaf.

1. Ystyriodd y SAC un adroddiad mewn perthynas â thrwydded gyrrwr ddeuol Tacsi/Cerbyd Hurio Preifat mewn perthynas â gyrrwr a fethodd â chyflwyno tystysgrif feddygol a gwblhawyd gan Feddyg Teulu. Cafodd y drwydded ei hatal ar unwaith er budd diogelwch y cyhoedd.

2. Ystyriodd y SAC un adroddiad mewn perthynas â thrwydded gyrrwr Tacsi / Cerbyd Hurio Preifat, ar ôl i'r tîm Trwyddedu gael gwybodaeth gan yr Heddlu ynghylch honiadau difrifol. Y penderfyniad a wnaed oedd diddymu'r drwydded ar unwaith er budd diogelwch y cyhoedd.

**GWRANDAWIADAU PANEL TRWYDDEDU**

Cynhaliwyd 3 gwrandawiadau panel trwyddedu ers y Pwyllgor Trwyddedu diwethaf. Dangosir y gwrandawiadau hyn yn y tabl isod:

| Math o gais | Penderfyniad | Dyddiad Gwrandawiad a Penderfyniad |
|---|---|---|
| Cais Deddf Trwyddedu 2003 | Gwrthod | 10/10/23 |
| Gyrrwr tacsi | Gwrthod | 17/11/23 |
| Gyrrwr tacsi | Gwrthod | 27/2/24 |
| Cerbyd (tacsi) | I'w benderfynu | 25/3/24 |

**PERFFORMIAD BLYNYDDOL**

Yn ystod y cyfnod 01/02/2023 – 31/01/2024 mae'r Tîm Trwyddedu wedi parhau i dderbyn a phrosesu nifer fawr o geisiadau trwyddedu, adnewyddiadau a throsglwyddiadau a diwygiadau i drwyddedau. Mae'r tîm hefyd yn ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â'r amrywiaeth eang o feysydd trwyddedu y maent yn gyfrifol amdanynt. Yn ogystal, mae'r tîm yn derbyn ac yn prosesu nifer fawr o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, sy'n aml yn gofyn am rywfaint o ymchwil a pharatoi er mwyn darparu ymateb.

Mae crynodeb o nifer y ceisiadau am drwydded a cheisiadau am wasanaeth ynghlwm fel Atodiad A.

**ARCHWILIAD MEWNOL**

Yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd gan Dîm Archwilio Mewnol y Cyngor o weithdrefnau trwyddedu tacsis, cynghorwyd y Tîm Trwyddedu y dylai'r Gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am drin data yn ei holl bolisïau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd y Gwasanaeth yn cymryd y camau canlynol:

- Fel mesur dros dro, mae'r Gwasanaeth wedi cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd (gweler Atodiad B) sy'n ymwneud yn benodol â'r ffordd yr ydym yn trin data wrth brosesu trwyddedau tacsi ochr yn ochr â'r polisi tacsi cyfredol ar dudalennau gwe Trwyddedu'r Cyngor hyd nes y bydd adolygiad llawn o'r Polisi Trosfwaol Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat cyfredol wedi'i gwblhau;

- Ar gyfer polisïau nad oes angen adolygiad llawn arnynt yn ystod 2024/25, bydd y Gwasanaeth yn codi'r mater yn y Pwyllgor Trwyddedu nesaf ac yn ceisio cymeradwyaeth i wneud mân atodiad i bolisïau o'r fath. Mae'r polisïau trwyddedu y mae'r pwynt hwn yn ymwneud â hwy yn cynnwys: Datganiad Polisi Trwyddedu 2012-2026, Polisi Dosbarthu Ffilm, Polisi ar gyfer Rheoleiddio Casgliadau Stryd a Chasgliadau Elusennol o Dŷ i Dŷ, a Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013;

- Yn achos polisïau a amserlenwyd i'w hadolygu yn ystod 2024/25, bydd datganiad/hysbysiad trin data yn cael ei ymgorffori yn y polisïau diwygiedig yn ystod y broses adolygu. Y polisïau hyn yw:, Datganiad Polisi Hapchwarae 2022 – 2025, Polisi ac Amodau Trwyddedu trosfwaol Tacsi a Cherbydau hurio Preifat.

**MATERION ERAILL O DDIDDORDEB**

**Lleisiau Eraill, Aberteifi 2023**

Manylion y Digwyddiad: Cynhaliwyd digwyddiad blynyddol Lleisiau Eraill am y 4ydd tro eleni yn Aberteifi ac fe'i agorwyd yn swyddogol gan y Prif Weinidog Mark DRAKEFORD. Mae Lleisiau Eraill yn ŵyl gerddorol ryngwladol enwog, sy'n dathlu cerddoriaeth ar raddfa fyd-eang, gan ddenu cerddorion o'r radd flaenaf i berfformio mewn pob math o leoliadau agos ac atmosfferig, o'i chartref yn Dingle, Iwerddon i lefydd cerddorol eraill fel Austin, Texas. Mae'r ŵyl yn ddathliad o gysylltiadau oesol a dealltwriaeth ddiwylliannol ddofn rhwng Cymru ac Iwerddon

Roedd y prif berfformwyr cerddorol yn perfformio yn Eglwys y Santes Fair, Aberteifi ar ddydd Gwener 27ain a dydd Sadwrn 28ain gyda nifer o gerddorion eraill yn perfformio

mewn lleoliadau o amgylch canol y dref yn ystod y prynhawn, fin nos a gyda'r nos ar y tri diwrnod fel rhan o Lwybr Cerdd.

Yn dilyn ffi gofrestru unigol o £25 y pen, gan godi i £35, roedd mynediad i bob lleoliad Llwybr Cerdd a sesiynau Clebran am ddim. Cafodd pawb a gofrestrodd eu cynnwys yn awtomatig mewn raffl i ennill tocynnau poblogaidd i weld y prif berfformwyr yn Eglwys y Santes Fair yn ogystal â gwobrau cystadleuaeth a roddwyd gan fusnesau lleol.

Llwyfannwyd Lleisiau Eraill Aberteifi gyda chefnogaeth a buddsoddiad Llywodraeth Cymru a'r Adran Ddiwylliant, Treftadaeth a'r Gaeltacht, ac fe'i cynhyrchwyd gan South Wind Blows mewn partneriaeth â Theatr Mwldan a Triongl. Ffilmiwyd y digwyddiad gan Triongl i'w ddarlledu yn ddiweddarach ar S4C.

Roedd pedwar prif ran i ŵyl Lleisiau Eraill Aberteifi:

**Llwybr Cerdd** - ymddangosodd dros 40 o artistiaid dros y tridiau mewn lleoliadau o amgylch canol tref Aberteifi (cyfanswm o oddeutu 80 o berfformiadau). Roedd mynediad i bob lleoliad ar sail y cyntaf i'r felin.

**Digwyddiadau'r Eglwys** – roedd wyth prif berfformiad a berfformiwyd yn Eglwys y Santes Fair dros pedair sesiwn (2 sesiwn ar wahân y noson, pob un â 2 artist i bob sesiwn, ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn). Cafodd y perfformiadau hyn eu ffrydio'n fyw ar-lein a'u ffilmio i'w darlledu'n ddiweddarach ar y teledu.

**Ffrydio** – Cafodd sesiynau Eglwys y Santes Fair eu ffrydio ar yr un pryd i sgrin y sinema (Mwldan 1) yn Theatr Mwldan. Cafodd y perfformiadau hyn eu ffrydio'n fyw ar-lein ar draws y byd, a'u ffilmio i'w darlledu'n ddiweddarach ar deledu ar S4C a RTÉ.

**Clebran -** cynhaliwyd cyfres o bum sesiwn sgyrsiau a thrafodaethau yn ystod y prynhawn ddydd Iau (2), dydd Gwener (1) a dydd Sadwrn (2) ym Mwldan 2.

**LLEOLIADAU LLWYBRAU CERDDORIAETH**

**Prif 6 lleoliad mwy**

Iard Glo Tipi Pizza - Capasiti 200.

Theatr Byd Bychan - Capasiti 190.

Pafiliwn Castell Aberteifi - Capasiti 190.

Mwldan 2 - Capasiti 249.

Mwldan 4 - Capasiti 100.

Bar y Selar - Capasiti 100.

**4 Lleoliad llai**

Crwst - Capasiti 76 + gyda rhai yn sefyll.

Bar 45 - Capasiti 50.

Stiwdio 3 - Seddi 90 + 100 yn sefyll.

Canfas - Capasiti 40.

**Clebran:** Bu Clebran yn gweithredu fel cyfres o sgyrsiau wedi'u curadu'n ofalus gydag artistiaid, darlledwyr, pobl greadigol a gwleidyddion a oedd yn rhedeg ochr yn ochr â'r digwyddiad, gan sbarduno sgyrsiau cyfoethog, bywiog am ganfyddiadau o'r byd, iaith a diwylliant. Cynhaliwyd y sesiynau hyn ym Mwldan yn ystod y dydd ar draws y tridiau.

**Cynllunio digwyddiadau:** Mae'r digwyddiad wedi cael ei adolygu'n flynyddol ac mae swyddogion trwyddedu a swyddog trwyddedu'r heddlu wedi cwrdd eto gyda'r trefnwyr cyn y digwyddiad hwn. Yn ystod trafodaethau trafodwyd digwyddiad y flwyddyn flaenorol a thrafodwyd manylion trefniadau diogelwch a stiwardio. Y meysydd eraill a drafodwyd oedd cynlluniau diogelwch digwyddiadau, a chynhaliwyd adolygiad o'r cynlluniau diogelwch digwyddiadau a chynhaliwyd gwiriadau gan sicrhau bod yr ardystiad ar gyfer mannau gwerthu bwyd newydd yn gyflawn ac yn gywir.

Cafodd y digwyddiad ei gynnal heb unrhyw broblemau ond derbyniwyd un gŵyn sŵn yn dilyn diwedd yr ŵyl.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad(au):** | Bod yr Aelodau'n nodi ac yn rhoi sylwadau ar gynnwys yr adroddiad hwn, ac yn cymeradwyo'r angen i ddiwygio'r polisïau trwyddedu i weithredu'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Mewnol. |
| **Rheswm dros argymhelliad** | Cynghori'r Aelodau etholedig o weithgarwch a gyflawnwyd gan yr Adran Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gwybodaeth berthnasol arall. |
| **Fframwaith Polisi:** | Mae'r swyddogaethau statudol a ddarperir gan y Tîm Trwyddedu yn elfen sylfaenol o fframwaith polisi Diogelu’r Cyhoedd. |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol** | Hybu’r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth |
| **Goblygiadau cyllid a chaffael:** | O fewn y gyllideb |
| **Ardal Gwasanaeth** | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 |
| **Papurau Cefndir** | Dim |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams (Polisi, Perfformiad a Diogelu y Cyhoedd) |

| | |
|---|---|
| **Swyddog Adrodd:** | Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) a Gareth Rees (Uwch Swyddog Trwyddedu). |
| **Dyddiad:** | 1 Mawrth 2024 |

**Atodiadau:** A: Diweddariad llwyth gwaith y Tîm Trwyddedu
B: Trin Data a Hysbysiad Preifatrwydd

**ATODIAD A:** Nifer y ceisiadau am drwydded a roddwyd rhwng 1/2/23 – 31/1/24

| Mathau o Drwyddedau | 1/2/23 – 31/1/24 | Blynyddoedd blaenorol |
|---|---|---|
| Tacsi / Cerbyd Hurio Preifat | **152** | 138 |
| Gyrrwr Deuol | **50** | 76 |
| Gweithredwr Hurio Preifat | **7** | 4 |
| Lletya Anifeiliaid | **7** | 8 |
| Lletya Cartref | **6** | 7 |
| Anifeiliaid Gwyllt Peryglus | **0** | 0 |
| Siop Anifeiliaid Anwes | **1** | 1 |
| Bridio Cŵn | **25** | 32 |
| Sefydliadau Marchogaeth | **4** | 5 |
| Sŵau | **0** | 0 |
| Anifeiliaid Perfformio - Newydd | **2** | 3 |
| Deddf Rheoli a Datblygu Carafannau 1960 | **2** | 3 |
| Ceisiadau Deddf Cartrefi Symudol | **1** | 5 |
| Gweithdrefnau Arbennig | **11** | 3 |
| Petroliwm | **10** | 6 |
| Ffrwydron | **5** | 3 |
| Dosbarthiad Ffilm | **7** | 10 |
| Deliwr metel sgrap | **5** | 6 |
| Casgliadau o dŷ i dŷ | **9** | 9 |
| Casgliadau Stryd | **33** | 20 |
| Ceisiadau Trwydded Safle Newydd | **17** | 23 |
| Adnewyddu Trwydded Safle | **388** | 355 |
| Trwydded Amrywio Safle'n Llawn | **0** | 3 |
| Mân Amrywiadau | **3** | 2 |
| Trosglwyddo Lleoliad Trwydded | **5** | 2 |
| Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro | **218** | 277 |
| Trwyddedau Personol (Newydd) | **37** | 51 |
| Newid manylion Trwydded Personol | **21** | 18 |
| Adolygiadau | **5** | 3 |
| Newid Goruchwyliwr Dynodedig Lleoliad | **16** | 22 |
| Safleoedd Hapchwarae Newydd | **2** | 2 |
| Adnewyddiadau Deddf Hapchwarae | **10** | 14 |
| Hysbysiadau Defnydd Achlysurol | **8** | 7 |
| Loterïau Cofrestredig | **96** | 78 |
| Trwyddedau/trwyddedau Hapchwarae Eraill | **8** | 5 |
| Nifer y Ceisiadau/Cwynion Gwasanaeth | **532** | 632 |
| Nifer yr arolygiadau o safleoedd/cerbydau | **189** | 62 |
| **Cyfanswm** | **1892** | 1895 |

**ATODIAD B: Trin Data a Hysbysiad Preifatrwydd**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Dyddiad y Crëwyd: 13/2/2024
Dyddiad y cyhoeddwyd: 13/2/2024
Rhif y fersiwn: 1

| | |
|---|---|
| Maes Gwasanaeth: | Diogelu'r Cyhoedd |
| Maes Gwaith: | Trwyddedu |
| Manylion cyswllt: | 01545 570881<br>publicprotection@ceredigion.gov.uk |
| Enw Hysbysiad Preifatrwydd: | Ceisiadau tacsi yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847. |
| Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd: | Bydd y rhybudd preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych amdanoch eich hun os byddwch yn gwneud cais am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni / Hurio Preifat, Cerbyd Hacni / Hurio Preifat neu Drwydded Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat. |

**Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth**

**Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth**

**Diben y gwaith prosesu**

Defnyddir y wybodaeth a ddarperir gennych i brosesu eich cais (ceisiadau) ar gyfer trwydded yrru cerbyd hacni/cerbyd hurio preifat, trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat a thrwydded Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat. Defnyddir y wybodaeth hon i benderfynu ar addasrwydd eich cerbyd yn awr ac yn y dyfodol at ddibenion trwyddedu.

Mae hefyd gennym rwymedigaeth gyfreithiol i gynnal cofrestrau cyhoeddus yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod. Os yw'n berthnasol, bydd y wybodaeth ganlynol amdanoch yn cael ei chadw ar gofrestr gyhoeddus:

- Enw, rhif trwydded:
- Dyddiad a chyfnod y drwydded a roddwyd (trwydded yrru cerbyd hurio preifat yn unig)

Bydd eich gwybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio at ddibenion enillion statudol, cydymffurfiaeth ac adolygiadau gwasanaethau cwsmeriaid.

**Ffynhonnell a chategorïau data personol**

Yn ychwanegol at y wybodaeth a ddarperir gennych, efallai y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth i benderfynu ar eich addasrwydd neu addasrwydd eich cerbyd yn awr ac yn y dyfodol at ddibenion trwyddedu. Gall y wybodaeth hon ddod o ffynonellau eraill fel awdurdodau lleol eraill lle yr oedd gennych drwydded yn y gorffennol neu o'r Heddlu.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Mae rhwymedigaeth tasg gyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth a nodir isod:

- Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
- Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod:

1e. mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:

Deddf Diogelu Data 2018 - Atodlen 1 / Rhan 2
6 (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r prosesu—
(a) Yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), a
(b) Yn angenrheidiol oherwydd resymau o fudd sylweddol y cyhoedd.
(2) Y dibenion hynny yw—
(a) ymarfer swyddogaeth a roddwyd i berson drwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol;
(b) ymarfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os yw unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau.

Mae'r amod uchod yn amod Erthygl 9 ac Erthygl 10 ar gyfer prosesu.

**Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?**

**Manylion y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Sir Ceredigion.
Gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ar:
Swyddog Diogelu Data,
Cyngor Sir Ceredigion,
Canolfan Rheidol,

Aberystwyth
SY23 3UE
E-bost: data.protection@ceredigion.gov.uk

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â’r Maes Gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd yr Adrannau Trwyddedu a Safonau Masnach, a fydd yn cael cymorth cyfreithiol gan Wasanaethau Cyfreithiol CSC.

Lle na ellir swyddogion o dan bwerau dirprwyedig benderfynu ar geisiadau, caiff ceisiadau eu penderfynu gan Is-bwyllgor sy'n cynnwys aelodau etholedig.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth gyfreithiol i gynnal cofrestru cyhoeddus yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod. Os yw'n berthnasol, bydd y wybodaeth ganlynol amdanoch yn cael ei chadw ar gofrestr gyhoeddus:

- Enw, rhif trwydded:
- Dyddiad a chyfnod y drwydded a roddwyd (trwydded yrru cerbyd hurio preifat yn unig)

**Manylion am unrhyw rannu o’ch gwybodaeth o fewn Cyngor Sir Ceredigion**

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r meysydd gwasanaeth canlynol:

- Gwasanaethau Cludiant a Gwasanaethau Cymdeithasol at ddibenion diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys plant ac oedolion sy’n agored i niwed
- Treth y Cyngor a Budd-daliadau Tai at ddiben canfod ac atal twyll ar bwrs y wlad.

**Manylion am unrhyw rannu o’ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu lle mae sail gyfreithiol dros wneud hynny gyda'r sefydliadau canlynol:

- Cwmnïau / Darparwyr Yswiriant
- Awdurdodau Lleol Eraill, gall hyn gynnwys rhannu gwybodaeth fanwl gydag awdurdodau lleol eraill mewn perthynas â'r rheswm dros ein gwrthodiad / dirymiad,
- Eich Meddyg,
- Awdurdodau statudol eraill, er enghraifft, ac nid yn gyfyngedig i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Swyddfa'r Cabinet, y Swyddfa Gartref, y Comisiwn Archwilio, yr Adran Drafnidiaeth, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA), Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yr Heddlu neu asiantaeth debyg, lle mae rhannu eich data yn hanfodol.
- Cyrff cyhoeddus neu sefydliadau eraill sy'n defnyddio technegau paru data i gasglu trethi, canfod ac atal twyll ar bwrs y wlad neu gynorthwyo i ymchwilio a chanfod trosedd, erlyn troseddwyr, amddiffyn eiddo a chynnal cyfraith a threfn, fel Menter Atal Twyll.

- Efallai y bydd gofyn i ni rannu eich gwybodaeth bersonol gyda'r Heddlu, neu asiantaeth debyg, neu Gyngor arall at ddibenion atal a chanfod twyll.
- Cofrestr Genedlaethol o Ddirymiadau a Gwrthodiadau Trwyddedau Tacsi (NR3) er mwyn rhannu gwybodaeth am ddiddymiadau trwyddedau gyrru a gwrthod ceisiadau.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Sir Ceredigion yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

**Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Yn unol â Pholisi Cadw Data'r Cyngor, cedwir y wybodaeth fel a ganlyn:
- Gyrrwr Cerbyd Hacni / Hurio Preifat – Hyd y drwydded berthnasol yn ogystal â 3 blynedd ac ardystiadau meddygol
- Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat (lle gwrthodwyd neu diddymwyd trwydded) – hyd at 25 mlynedd
- Cerbyd Hacni a Cherbydau Preifat – Hyd y drwydded berthnasol yn ogystal ag 1 flwyddyn
- Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat – Hyd y drwydded berthnasol yn ogystal â 5 mlynedd

**Eich hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)**

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk .

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwynion**

Os ydych yn anfodlon â’r modd y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymdrin â'ch cais / gwybodaeth, mae gennych hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno:
Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion - Cyngor Sir Ceredigion

# Crynodeb o’r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Defnyddir y wybodaeth a ddarperir gennych i brosesu eich cais (ceisiadau) ar gyfer trwydded yrru cerbyd hacni/cerbyd hurio preifat, Cerbyd Hacni neu Drwydded Cerbyd Hurio Preifat a thrwydded Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat. Defnyddir y wybodaeth hon i benderfynu ar addasrwydd / addasrwydd parhaus eich cerbyd at ddibenion trwyddedu.

Gall eich hunaniaeth fod yn rhan o adroddiad pwyllgor sydd ar gael yn gyhoeddus a/neu gofrestr gyhoeddus. Bydd eich gwybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio at ddibenion enillion statudol, cydymffurfiaeth ac adolygiadau gwasanaethau cwsmeriaid. Fe'i defnyddir hefyd at ddiben rhannu gwybodaeth sy’n ymwneud â diddymiadau trwydded yrru a gwrthod ceisiadau ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddirymiadau a Gwrthodiadau Trwydded Tacsi (NR3). Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch chi o ffynonellau eraill a gallwn rannu’ch gwybodaeth gydag eraill lle mae sail gyfreithiol dros wneud hynny.

Darperir manylion pellach am ba mor hir rydym yn cadw’ch gwybodaeth yn y ddolen isod.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gadael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi’n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu’ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol: Hysbysiad Preifatrwydd - Cyngor Sir Ceredigion

Cerinet (ceredigion.gov.uk)

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol) |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21 Mawrth 2024 |
| **Teitl:** | Diweddariad Cyffredinol |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cynghori Aelodau am gynllun trwyddedu gorfodol 'gweithdrefnau arbennig' a ragwelir y bydd yn cael ei gyflwyno yng Nghymru |

**Cefndir**

Ar hyn o bryd, os bydd unigolion yn dymuno cynnig gwasanaeth aciwbigo, tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis, mae'n ofynnol iddynt wneud cais i'w cofrestru gyda'i awdurdod lleol.

Mae'r gofyniad i gofrestru wedi'i nodi yn Rhan 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. O dan Ddeddf 1982, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru is-ddeddfau enghreifftiol mewn perthynas â materion penodol sy'n rheoli arferion hylendid diogel yn y mathau hyn o weithdrefnau, ond mae opsiynau gorfodi o dan y darpariaethau hyn yn gyfyngedig, hyd yn oed ar gyfer Awdurdodau Lleol sydd wedi mabwysiadu'r safonau enghreifftiol yr is-ddeddfau Lleol yn gyfan gwbl.

Ar hyn o bryd, gall awdurdodau lleol ddim ond gwrthod cais i gofrestru ar gyfer tyllu'r croen o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 os yw cofrestriad blaenorol yr ymgeisydd wedi'i ganslo gan y llysoedd o ganlyniad i'w gael yn euog o drosedd (fel torri is-ddeddf hylendid).

Mae llawer cofnod o effeithiau andwyol ar iechyd sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau arbennig. Mae arferion hylendid gwael yn arwain at haint firaol a gludir yn y gwaed, heintiau croen bacteriol, y mae rhai ohonynt yn arwain at sepsis ac adweithiau alergaidd, sy'n aml o ganlyniad i ddiffyg ymgynghori cyn i'r driniaeth gael ei pherfformio. Mae'r effeithiau iechyd dynol hyn yn cael eu gwneud yn waeth gan y fframwaith rheoleiddio bresennol sy'n annigonol a sydd hefyd wedi dyddio.

Mae'r rheolaethau deddfwriaethol presennol, h.y. Deddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1982 Rhan VIII, sy'n cynnig cynllun cofrestru nad yw'n orfodol, wedi bod yn aneffeithiol o ran sicrhau dull cyson ar gyfer pob ymarferydd yng Nghymru i weithredu arferion gweithio diogel, neu weithdrefnau atal a rheoli rhag heintio.

**Cynllun Trwyddedu Gweithdrefnau Arbennig Newydd**

Bydd cynllun trwyddedu newydd ar gyfer 'Gweithdrefnau Arbennig' yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2024 (mae'r union ddyddiad eto i'w gadarnhau), o dan Ran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Mae Gweithdrefnau Arbennig yn cynnwys tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu cosmetig, aciwbigo, nodwydd sych ac electrolysis.

Bydd prif ofynion y drefn hon yn cynnwys:

- Rhaid i ymarferwyr fod â thrwydded i gyflawni gweithdrefnau arbennig. Bydd yn drosedd cyflawni gweithdrefnau arbennig heb drwydded;
- Rhaid cymeradwyo lleoliadau busnes neu gerbydau. Bydd yn drosedd i ymarferydd gyflawni unrhyw weithdrefnau o leoliad neu gerbydau nad ydynt wedi'u cymeradwyo
- Bydd trwydded lawn yn para am dair blynedd, a bydd trwydded dros dro yn para am saith diwrnod (i ganiatáu ar gyfer digwyddiadau a chynadleddau);
- Bydd amodau'r drwydded yn cwmpasu cymhwysedd ymarferydd, y safle, yr offer a'r arferion a ddefnyddir, cyngor a roddir cyn ac ar ôl y weithdrefn arbennig a'r cofnodion a gedwir.

**Goblygiadau Cynllun Trwyddedu Gorfodol Newydd**
Bydd y drefn newydd yn golygu y bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi gofyniad trwyddedu yr arferion hyn ac am gadw cofrestr o drwyddedau gweithdrefnau arbennig a gyhoeddir ganddynt.

Bydd mwy o bwerau i orfodi'r ddeddfwriaeth hon na'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd, yn ogystal â'r gallu i dynnu trwydded yn ei hôl ac atal arferion anniogel ar unwaith. Bydd dirwyon heb uchafswm lle mae erlyniad yn llwyddiannus.

Bydd cyfnod trosiannol ar waith i ganiatáu i ymarferwyr triniaeth arbennig a'u safleoedd gael eu hasesu gan Swyddogion Diogelu’r Cyhoedd a'u trosglwyddo i'r cynllun trwyddedu newydd. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu ac am gadw cofrestr gyhoeddus gyfoes.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd llawer o'r gwaith ychwanegol hwn yn cael ei amsugno i raglenni gwaith presennol Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu, a allai effeithio ar feysydd eraill o ddarparu gwasanaethau. Bydd gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd hon yn cael effaith ar adnoddau ac yn gofyn am hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff priodol yn y gwasanaeth Diogelu’r Cyhoedd.

Bydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Rhan 4 – Gweithdrefnau Arbennig, yn effeithio ar oddeutu 22 o fusnesau a 47 o ymarferwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau gweithdrefnau arbennig yng Ngheredigion wrth gyflwyno’r cynllun trwyddedu gorfodol cenedlaethol.

Rhagwelir pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym, na fydd 'hawliau tad-cu' a bydd yn ofynnol i gael trwydded safle a thrwydded bersonol. Bydd trwyddedau yn rhedeg am 3 blynedd cyn y bydd angen eu hadnewyddu a bydd trwyddedau 7 diwrnod dros dro hefyd ar gael i ddarparu ar gyfer digwyddiadau.

Bydd ffioedd yn cael eu pennu ar gyfer Cymru gyfan i’w ariannu ar sail adennill costau, ac fe godir y ffi ar ôl i drwydded neu dystysgrif gymeradwyo gael ei rhoi gyda’r bwriad o dalu cost rhedeg y cynllun, gan gynnwys cymorth a chyngor i ddeiliaid trwyddedau, gorfodi, ymchwilio i gwynion, monitro cydymffurfiaeth ac ymweliadau. Mae awdurdodau lleol Cymru yn paratoi tuag at gwblhau'r ffioedd cymeradwyo arfaethedig ar gyfer trwydded ymarferwyr a safleoedd/cerbydau.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu deddfwriaethu pellach i ddiwygio'r rhestr o weithdrefnau arbennig fel bod y ddeddfwriaeth yn gyfredol ac yn gallu cynnwys triniaethau eraill sy'n datblygu neu'r rhai sy'n peri pryder yn y dyfodol.

Nod y ddeddfwriaeth hon yw gwneud y gweithdrefnau hynny'n fwy diogel i ddinasyddion sy'n ceisio triniaethau gweithdrefnau arbennig, gan ddarparu amddiffyniad rhag niwed posibl i iechyd, gan sicrhau bod cyfeiriad a chymorth clir a hefyd amddiffyniad i ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau o'r fath; a chreu trefn drwyddedu gadarn i Gymru a fydd yn caniatáu cysondeb wrth orfodi.

**Ymgynghoriad**

Bydd yr ymgynghoriad nesaf terfynol yn rhoi cyfle i randdeiliaid adolygu'r rheoliadau drafft. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad terfynol hwn ar 12 Chwefror 2024 a bydd yn rhedeg tan 8 Ebrill 2024.

**Goblygiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn disgwyl i'r drefn hon eistedd o dan strwythurau pwyllgorau trwyddedu a'u bod wedi llunio dogfen ymgynghori i'w hystyried sy'n amlinellu eu disgwyliadau o ran llywodraethu. Bydd swyddogion yn hysbysu'r Aelodau o'r Pwyllgor hwn pan fydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei chyhoeddi. Rhagwelir y bydd ceisiadau dadleuol yn amodol ar benderfyniad is-bwyllgor, ac y bydd hawl i apelio i is-bwyllgor trwyddedu neu lys ynadon ar gyfer ymgeiswyr lle gwrthodwyd trwydded ymarferydd.

Rhagwelir hefyd y bydd yn ofynnol i Aelodau ymgymryd â hyfforddiant i'w galluogi i benderfynu ar geisiadau gan y gallent fod yn destun her gyfreithiol. Bydd Dr Sarah Jones, Uwch Gynghorydd Iechyd yr Amgylchedd sydd wedi bod yn arwain ar ddatblygu'r cynllun trwyddedu ar gyfer Llywodraeth Cymru yn rhoi cyflwyniad i aelodau'r pwyllgor i'r cynllun drwy Zoom yn ystod y cyfarfod o'r pwyllgor hwn heddiw.

Nid yw rôl y pwyllgor trwyddedu mewn penderfyniadau cais am drwydded o'r fath wedi'i rhagnodi eto o fewn Rheoliadau Gwrandawiadau penodol a bydd y pwyllgor hwn yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau o'r fath wrth i gyfarwyddid pellach gan Lywodraeth Cymru gael ei dderbyn ar y mater hwn.

Pan ddaw'r sefyllfa'n gliriach o ran rôl y pwyllgorau trwyddedu, bydd y Swyddog Monitro yn adolygu pa fecanweithiau y bydd angen eu mabwysiadu yng nghyfansoddiad y Cyngor, yn ogystal â phenderfynu ar y pwerau dirprwyedig sydd eu hangen ar gyfer swyddogion.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad(au):** | I'r Aelodau'n nodi ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad hwn. |
| **Rheswm dros argymhelliad** | Rhoi gwybod i Aelodau etholedig am y cynllun trwyddedu gorfodol hwn yn 2024 a fydd yn dod o fewn cylch gwaith Diogelu'r y Cyhoedd. |

| | |
|---|---|
| **Fframwaith Polisi:** | Mae'r swyddogaethau statudol a ddarperir gan Ddiogelu'r Cyhoedd mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu newydd hwn yn elfen sylfaenol o fframwaith polisi Diogelu'r Cyhoedd. |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol** | Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth |
| **Goblygiadau cyllid a chaffael:** | O fewn y gyllideb |
| **Ardal Gwasanaeth** | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 |
| **Papurau Cefndir** | Dim |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams (Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd) |
| **Swyddog Adrodd:** | Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu). |
| **Dyddiad:** | 1 Mawrth 2024 |